

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	27 Medi 2022
Aelod Cabinet:	Elin Walker Jones, Aelod Cabinet dros Blant a Cefnogi Teuluoedd
Swyddog Cyswllt:	Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol 2021-22

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad sy'n adrodd ar waith y Panel Rhiant Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn 2021-22.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1. Mae'n hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.
- 2.2. Mae gan Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid gyfrifoldeb clir i fod yn Rhiant Corfforaethol i bob plentyn yng Ngwynedd, ac yn benodol i sicrhau gofal effeithiol, sefydlog, diogel ac addas ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal, ynghyd â'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar y gwaith sydd wedi ei wneud i sicrhau fod y Cyngor yn ymgymryd a'i chyfrifoldeb.

3. CEFNDIR

- 3.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel Rhiant Corfforaethol yn ystod y cyfnod.
- 3.2. Credir i'r adroddiad grynhai gwaith y Panel yn gywir a theg.

4. Barn y Swyddogion Statudol:

Y Swyddog Monitro:

Mae'r dyletswydd o weithredu fel rhiant corfforaethol yn un pwysig. Mae'n allweddol felly fod effeithlonrwydd y trefniadau yma yn cael eu hadolygu yn gyson. Mae gan y Cabinet rôl allweddol yn cadw trosolwg o waith y Panel.

Y Pennaeth Cyllid:

Mae'r adroddiad yn un ffeithiol, sy'n egluro i'r Cabinet y gwaith a gyflawnwyd gan y Panel yn ystod 2021/22. Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa, a ni fydd gweithredu'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd.